Enw'r gronfa	Manylion cyswllt	Beth maent yn ei ariannu?	Pwy maent yn ei ariannu?	Faint o arian sydd ar gael?
Amgylchedd Cymru	Gwefan Amgylchedd Cymru 029 2043 1727	Mae Amgylchedd Cymru yn cefnogi prosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth gyffredinol o'r amgylchedd, addysgu pobl am eu heffaith ar yr amgylchedd, hybu cyfranogiad cymunedol, creu incwm drwy fenter amgylcheddol, a hybu arferion gorau ac arloesedd. Maent yn creu mentrau amgylcheddol newydd sydd hefyd yn caniatáu i gymunedau a sefydliadau gwirfoddol gyfrannu at eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd	Grwpiau cymunedol a gwirfoddol	Hyd at 75% o gostau'r prosiect. Rhaid i o leiaf 25% o'r costau gael eu talu o ffynonellau eraill Grantiau cychwyn £1,000 Grantiau cyn prosiectau £4,000 Grantiau ychwanegol yn amrywio rhwng £1,000 a £12,000
Co-operative Group	Gwefan The Co-operative Group (Saesneg yn unig) 0161 827 5879	Mae'r Grŵp yn cefnogi * Y celfyddydau a diwylliant * Dinasyddiaeth * Diogelwch yn y Gymuned * Dealltwriaeth yn y Gymuned * Yr Amgylchedd * Iechyd (er enghraifft, iechyd meddwl, cynghori, bwyta'n iach, grwpiau cymorth ar gyffuriau ac alcohol, gwasanaethau achub) * Tlodi * Chwaraeon.	Grwpiau cymunedol, grwpiau hunangymorth, grwpiau gwirfoddol ac elusennau cymunedol	£100 - £5,000
Cronfa Byw'n Weithgar Kelloggs	darren@communityfoundation.co.uk	Bydd y gronfa yn rhoi grantiau bach i ariannu prosiectau a gweithgareddau sydd yn arwain yn uniongyrchol at bobl yn	Elusennau, ysgolion a sefydliadau gwirfoddol a chymunedau eraill	Hyd at £1,000

		cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol parhaus. Nod y gronfa yw helpu i ddileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag bod yn weithgar.		
Cronfa Cyfiawnder Cymdeithasol Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Gwefan Cyngor Cefn Gwlad Cymru 0845 1306229	Mae'r gronfa'n cefnogi pobl sydd wedi cael eu datgysylltu o'r amgylchedd naturiol, i hwyluso newid cadarnhaol mewn ymddygiad neu agweddau.	Awdurdodau lleol, asiantaethau'r sector gwirfoddol, cyrff cyhoeddus eraill a grwpiau cymunedol	£500-£5,000
Cronfa Elusennol Bailey Thomas	01582 439225	Mae'r gronfa'n cefnogi ymchwil i anableddau dysgu a gofal a rhyddhad i'r rhai y mae anableddau dysgu'n effeithio arnynt.	Sefydliadau Gwirfoddol sy'n elusennau cofrestredig	Grantiau dros £250
Cymorth Sure Start	Gwefan Cymorth Sure Start (Saesneg yn unig)	Mae Cymorth yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth ac yn buddsoddi mewn cymunedau difreintiedig er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddangosyddion lles ar gyfer plant a phobl ifanc, rhwng 0 a 25 oed.	Caiff Cymorth ei weinyddu drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol o fewn pob Awdurdod Lleol	Cysylltwch ag Awdurdodau Lleol unigol i gael rhagor o wybodaeth.
Cyngor Chwaraeon Cymru	Gwefan Cyngor Chwaraeon Cymru	Nod Cyngor Chwaraeon Cymru yw cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol a chwaraeon yng Nghymru Mae Grantiau Cyfalaf yn cefnogi gwaith sy'n ymwneud â datblygu chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn bennaf	Heb nodi	Prosiectau grantiau cyfalaf o £12,000 neu fwy Cist Gymunedol uchafswm o

	0845 045 0904	yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf. Mae'r Gist Gymunedol yn cefnogi pobl i wneud mwy o weithgaredd corfforol yn amlach. Mae Grantiau Bach yn cefnogi prosiectau sy'n creu cyfleodd newydd, ychwanegol neu gyfleoedd gwell ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Sportsmatch Cymru yn darparu cysylltiad hanfodol rhwng y sector masnachol a datblygu chwaraeon ar lawr gwlad.		£1,000 Grantiau Bach £750 - £10,000 Sportsmatch Cymru £300-£50,000.
Cynllun Grantiau'r Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru	Gwefan Cynllun Grantiau'r Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru	Mae'r Cynllun yn cefnogi sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio'n genedlaethol ledled Cymru sy'n hybu themâu Her Iechyd Cymru.	Sefydliadau gwirfoddol	Heb nodi
Cysylltiadau Cymunedol BT	Gwefan Cysylltiadau Cymunedol BT (Saesneg yn unig) 020 7299 4163	Mae Cysylltiadau Cymunedol BT yn cynnig cyfle i sefydliadau wneud cais am gyfrifiadur personol aml-gyfrwng a mynediad i'r rhyngrwyd a chyfraniad tuag at fynediad i'r rhyngrwyd drwy fand eang am flwyddyn drwy BT Total Broadband.	Grwpiau cymunedol	Cyfrifiadur personol amlgyfrwng a mynediad parod i'r rhyngrwyd Argaeledd: 1,000

Grantiau Calon Iach Cronfa Genedlaethol Ymchwil y Galon	Gwefan Grantiau Calon Iach (Saesneg yn unig) 0113 297 6206	Mae'r grantiau'n cefnogi prosiectau arloesol sydd wedi eu cynllunio i hybu iechyd y galon ac atal neu leihau risgiau clefyd y galon ymysg grwpiau neu gymunedau penodol.	Grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol ac ymchwilwyr	Hyd at £10,000
Grantiau Comic Relief UK	Gwefan Comic Relief (Saesneg yn unig) ukgrants@ comicrelief.com 020 7820 5555	Mae'r grantiau'n cefnogi 6 maes yn eu rhaglen ar gyfer 2005 - 2008: · Pobl ifanc · Pobl hŷn · Iechyd Meddwl · Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches · Trais Domestig · Cymunedau Difreintiedig. Ni chaiff grantiau eu rhyddhau ar hyn o bryd. Bydd mwy o fanylion ar gael ar ôl Diwrnod "Trwyn Coch" 2009.	Elusennau cofrestredig a sefydliadau gwirfoddol a chanddynt ddibenion elusennol	
Grantiau Help a Heart Sefydliad Prydeinig y Galon	Gwefan Sefydliad Prydeinig y Galon (http://www.bhf .org.uk/living_wit h_heart_condition/ how_we_can_help/help_ a_heart_grants.aspx	Syniadau blaengar wedi eu harwain gan gleifion i helpu pobl y mae clefyd y galon yn effeithio arnynt i ddod yn iachach ac yn fwy hyddysg, tra'n lleihau ofn ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag ef.	Grwpiau cleifion/gofalwyr neu unigolion, prosiectau ymchwil ymyriad/atal	Hyd at £1,500
Grantiau Ymchwil Sefydliad Prydeinig y		Mae Sefydliad Prydeinig y Galon (BHF) yn ariannu tua 1,200 o brosiectau ymchwil sy'n ymchwilio i bob	Sefydliadau ymchwil a phrifysgolion	Heb nodi

Galon		agwedd o glefyd y galon o'i achosion a chyffuriau mwy diogel i wella technegau llawfeddygol.		
Gwobrau Cymunedol Corus	02633 464564	Mae'r gwobrau'n cefnogi ystod eang o achosion da mewn cymunedau lle mae gan y cwmni weithfeydd gweithgynhyrchu a dosbarthu.	Heb nodi	Heb nodi
Gworbau UnLtd Sport Relief	Gwobrau UnLtd Sport Relief (Saesneg yn unig) 0845 3670 770 sportreliefawards@unltd.org.uk	Mae Gwobrau UnLtd Sport Relief yn cefnogi pobl ifanc i ddod â chymunedau ynghyd, i'w helpu i hybu dealltwriaeth a datrys problemau drwy chwaraeon a bod yn weithgar.	Entrepreneuriaid 11-21 oed a chanddynt syniadau gwych ac sydd am wneud gwahaniaeth.	£250-£5,000
Its Your Community	Gwefan Its Your Community (Saesneg yn unig) 0207 591 3111	Mae'r Sefydliad Cadwraeth ac O2 yn cefnogi prosiectau sydd wedi eu cynllunio i wella amgylcheddau lleol.	Grwpiau ac unigolion lleol	Yn amrywio rhwng £100 a £1,000
Menter cynllun cyllido ar y cyd Cydraddoldeb ac	Gwefan Menter cyllido ar y cyd Cydraddoldeb ac	Mae Cynllun Menter ar y Cyd WEDHS yn galluogi cleifion du a lleiafrifoedd ethnig, defnyddwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd	Grwpiau cymunedol neu sefydliad gwirfoddol	Grant cyfartalog a dderbynnir £350 fodd bynnag gall grantiau fod ar gael hyd

Amrywiaeth Mewn Gofal Cymdeithasol yng Nghymru	Amrywiaeth mewn Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Saesneg yn unig)	i gymryd rhan yn y broses o wneud gwelliannau i'w hiechyd a'u lles. Nodi a thargedu pryderon iechyd o fewn cymunedau lleol.		at £500
Rhaglen Iechyd y Cyhoedd Asiantaeth Weithredol Iechyd y Cyhoedd y Comisiwn Ewropeaidd	Gwefan y comisiwn Ewropea (http://ec.europa.eu/ phea/programme/ programme_en.html)	Y Rhaglen Iechyd yw prif offeryn y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer gweithredu strategaeth iechyd yr UE. Nod y rhaglen, drwy'r prosiectau a'r camau eraill a ariennir ganddo, yw gwella lefel iechyd a lles corfforol a meddyliol dinasyddion yr UE a lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled y Gymuned. Yn arbennig, mae'r rhaglen yn cefnogi camau hybu iechyd a chamau ataliol sy'n mynd i'r afael â'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd.	Sefydliadau o aelod- wladwriaeth gymwys; sefydliadau anllywodraethol, cyrff y sector cyhoeddus, gweinyddiaethau cyhoeddus, prifysgolion, sefydliadau addysg uwch, a chwmnïau masnachol.	Ar gyfer prosiectau, gall cyfranniad y rahglen hon fod hyd at 60% o'r costau fesul buddiolwr.
Sefydliad Allen Lane	Gwefan Sefydliad Allen Lane (Saesneg yn unig) 01904 613223	Mae'r Sefydliad yn cefnogi gwaith: *a fydd yn gwneud gwahaniaeth parhaol i fywydau pobl *sy'n anelu at leihau ynysu, stigma a gwahaniaethu *sy'n annog neu sy'n galluogi grwpiau amhoblogaidd i rannu ym mywyd y gymuned gyfan.	Elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill nad ydynt yn elusennau ond sy'n ceisio denu arian ar gyfer prosiect elusennol.	£500 - £15,000 Mae grantiau parhau yn amrywio rhwng £500 a £5,000 y flwyddyn
Sefydliad Camelot	Gwefan Sefydliad Camelot (Saesneg yn unig) 020 7828 6085	Mae'r sefydliad yn cefnogi: * Rhieni ifanc neu'r rhai sy'n wynebu'r risg o ddod yn rhieni ifanc * Pobl ifanc alltud, sydd newydd gyrraedd y DU * Pobl ifanc a chanddynt broblemau iechyd meddwl * Pobl ifanc anabl * Ailgysylltu ieuenctid gyda'r gymuned. * Rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed	Sefydliadau gwirfoddol	Heb nodi Caeodd Sefydliad Camelot ar 31/03/2008

Sefydliad Charles Hayward	Gwefan Sefydliad Charles Hayward (Saesneg yn unig) 020 7370 7063	Mae'r Sefydliad yn cefnogi celf, cadwraeth a'r amgylchedd, yr henoed, ymyriadau cynnar, hosbisau, cyfiawnder troseddol, anghenion arbennig, a materion tramor.	Elusennau cofrestredig neu sefydliadau elusennol	Maint grant nodweddiadol yw £1,000 -£20,000 Cynllun grantiau bach 5,000
Sefydliad Clore Duffield	Gwefan Sefydliad Clore Duffield (Saesneg yn unig) 020 7351 6061	Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio ar roi cymorth ar gyfer addysg, y celfyddydau, addysg amgueddfeydd ac orielau, hyfforddiant arweinyddiaeth ddiwylliannol, iechyd a lles cymdeithasol, tra'n rhoi pwyslais penodol ar gefnogi plant, pobl ifanc a phobl fwy diamddiffyn mewn cymdeithas.	Elusennau cofrestredig	Mae grantiau'n amrywio o lai na £5,000 - £1m
Sefydliad Elusennol Bernard Sunley	029 74082198	Mae'r Sefydliad yn cefnogi gwaith addysg, ieuenctid, cymunedol, amgylchedd/cadwraeth, iechyd a lles.	Elusennau cofrestredig ac ysgolion	£200 - £5,000
Sefydliad Esmee Fairbairn	Gwefan Esmee Fairbairn (Saesneg yn unig) 020 7297 4700	Y nod yw gwella ansawdd bywyd ar gyfer unigolion difreintiedig ledled y DU drwy integreiddio â chymdeithas a chyfranogi ynddi. Mae'r Sefydliad yn cefnogi'r meysydd canlynol: * Bywyd diwylliannol * Addysg	Elusennau cofrestredig neu sefydliadau di-elw a chanddynt gyfansoddiad a chyfrif banc	Ystyrir grantiau o dan a thros £50,000

		* Yr amgylchedd. Mae ffrydiau cyllid eraill yn cynnwys * Bioamrywiaeth * Bwyd * Casgliadau Amgueddfeydd a Threftadaeth		
Sefydliad Garfield Weston	Gwefan Sefydliad Garfield Weston (Saesneg yn unig) 020 7399 6565	Nid oes blaenoriaethau penodol gan y Sefydliad	Elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU, ac eithrio elusennau lles anifeiliaid gan gynnwys: eglwysi, sefydliadau addysg, ysbytai a chorfforaethau tai.	Dim uchafswm
Sefydliad HBOS	Gwefan Sefydliad HBOS (Saesneg yn unig) 0845 673 2005	Mae'r Sefydliad yn cefnogi ystod amrywiol o brosiectau sydd wedi eu cynllunio i ddatblygu a gwella cymunedau lleol.	Elusennau cofrestredig, sefydliadau di-elw a sefydliadau gwirfoddol.	Hyd at £10,000
Sefydliad Hedley	Gwefan Sefydliad Hedley (Saesneg yn unig)	Mae'r Sefydliad yn cefnogi prosiectau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant, iechyd a lles pobl ifanc.	Elusennau cofrestredig a sefydliadau bach	Heb nodi, y grant cyfartalog a ddyfernir yw £3,000 ac nid ydynt yn fwy na £5,000
Sefydliad James Tudor	Gwefan Sefydliad James Tudor (Saesneg yn unig) WestPoint 78 Queens Road Clifton	Mae Sefydliad James Tudor yn sefydliad dosbarthu grantiau a sefydlwyd i leddfu salwch. Mae'r meysydd yn cynnwys: *Gofal lliniarol * Ymchwil Meddygol	Sefydliadau elusennol	Grantiau ar gael ar gyfer y canlynol: Datblygiad cyfalaf, costau rhedeg gan gynnwys cyflogau staff a gorbenion.

	Bristol BS8 1QX 0117 985 8715 admin@jamestudor.org.uk	* Addysg iechyd, gwobrau ac ysgoloriaeth * Rhyddhad uniongyrchol o salwch * Sector gofal iechyd annibynnol y DU * Cyflawni ein hamcanion elsuennol drwy ddulliau eraill		Mae cyllid ar gael dros 3 blynedd dilynol.
Sefydliad Lankelly Chase	Gwefan Sefydliad Lankelly Chase (Saesneg yn unig) 01235 820044	Mae'r Sefydliad yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r celfyddydau, treftadaeth, datblygu cymunedau, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chyfiawnder troseddol.	Yn rhoi grantiau i sefydliadau a chanddynt statws elusennol yn bennaf, ond gall grwpiau gwirfoddol neu gymunedol wneud cais	£1,000 - £40,000
Sefydliad Lloyds TSB	Gwefan Sefydliad Lloyds TSB (Saesneg yn unig) 01792 314005	Mae'r Sefydliad yn cefnogi cymunedau difreintiedig ac yn darparu cefnogaeth a dulliau integreiddio o fewn cymdeithas gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: · Iechyd Meddwl · Gofalwyr · Camddefnyddio sylweddau · Cam-drin domestig a thrais rhywiol.	Elusennau bach a chanolig cofrestredig	Ni phennir uchafsymiau
Sefydliad Morgan	Gwefan Sefydliad Morgan (Saesneg yn unig)	Mae'r Sefydliad yn cefnogi sefydliadau sy'n helpu plant a theuluoedd a bydd yn ystyried unrhyw waith sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles, neu sy'n ehangu ar y cyfleoedd a'r dewisiadau bywyd i bobl ifanc Gogledd Cymru.	Elusennau cofrestredig, a mathau eraill o sefydliadau sy'n cefnogi achosion da.	Mae cyllid yn dibynnu ar fath, maint a chyfnod amser y dyfarniad. Caiff ei benderfynu ar sail y 'gwahaniaeth' canfyddedig a gaiff ein cymorth i'r sefydliad.

Sefydliad Rayne	Gwefan Sefydliad Rayne (Saesneg yn unig) 020 7487 9630	Grŵp targed: aelodau cymdeithas sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn cefnogi pedwar sector, sef y Celfyddydau, Addysg, Iechyd a meddygaeth a Lles a Datblygiad Cymdeithasol	Sefydliadau di-elw	Uchafswm o 50,000
Sefydliad Sainsbury - Ymddiriedolaeth Elusennol JJ	020 7410 0330	Mae'r Sefydliad yn cefnogi gwaith yn ymwneud â'r amgylchedd yn gyffredinol.	Ni phennwyd cyfyngiadau	Heb nodi
Sefydliad yr Hilton	Gwefan Sefydliad yr Hilton (Saesneg yn unig) 020 7605 7733	Mae'r sefydliad yn cefnogi pobl ifanc a gweithgareddau mewn addysg ac iechyd i leddfu dioddefaint ac arfogi unigolion. Meysydd ffocws ariannu: * Plant anabl * Plant mewn ysbytai * Digartrefedd * Plant mewn hosbis ag afiechydon cyfyngu bywyd	Ystod eang o elusennau a sefydliadau	Dim uchafswm
The Lifespan Trust	The Secretary, The Lifespan Trust, ARP/050 Windsor House, 1270 London Road, London SW16 4DH	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiectau sydd o fudd i bobl yn y 'trydydd oedran' sef, i lawer, y blynyddoedd ar ôl ymddeol.	Derbynnir ceisiadau gan sefydliadau ac unigolion	Nid yw grantiau i unigolion fel arfer dros £250 sefydliadau rhwng £1,000 a £3,000

WCVA	Gwefan y WCVA 0870 607 1666	Mae Cynllun Enfys yn cefnogi cynnydd yn ansawdd a nifer y mannau gwyrdd, caeau chwarae a phrosiectau datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn cefnogi unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol, drwy sefydliadau cymunedol bach, sydd o fudd i'w cymuned. Mae Cynllun Gwraidd yn cefnogi pobl mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal ag ardaloedd Amcan Un, i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder er mwyn iddynt ddechrau cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau. Mae Cronfa Fuddsoddi Gymunedol y WCVA yn darparu cyllid hyblyg i fentrau cymdeithasol sydd o fudd i ardaloedd Amcan 1 Cymunedau yn Gyntaf sydd am ddatblygu incwm cynaliadwy.	Sefydliadau gwirfoddol lleol, cymunedau, grwpiau a gwirfoddolwyr	Cynllun Enfys £2,000 - £100,000 Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf hyd at £5,000 Cynllun Gwraidd hyd at £3,000 Cronfa Fuddsoddi Gymunedol benthyciadau o hyd at £250,000 ar delerau hyblyg ar gael yn ogystal â grantiau datblygu llai
Y Gronfa Loteri Fawr - yng Nghymru	Gwefan y Gronfa Loteri Fawr 029 2067 8200	Cynllun grantiau'r Loteri ar gyfer cymunedau lleol yw Arian i Bawb. Mae'r grantiau'n cefnogi prosiectau sy'n hybu addysg, yr amgylchedd ac iechyd yn y gymuned leol, yn cynnwys hybu bwyta'n iach a gwneud mwy o ymarfer corff. Mae'r Gronfa Pobl Ifanc, Dyma Dy Gyfle, yn cefnogi prosiectau, gweithgareddau ac offer a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc rhwng 10 a 19 oed.	Arian i Bawb: Grwpiau di-elw, cynghorau plwyf neu gynghorau tref, ysgolion neu gyrff iechyd Cronfa Pobl Ifanc: Ariennir grwpiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn unig	Cronfeydd Arian i Bawb £500 - £5,000 Cronfa Pobl Ifanc, Dyma Dy Gyfle £500 - £5,000

Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru	Gwefan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru 029 20 520250	Mae'r Sefydliad yn cefnogi grwpiau a phrosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi ac i'r gymuned ehangach.	Unigolion preifat, **sefydliadau grŵp**, cwmnïau, ymddiriedolaethau elusennol ac eraill	Heb nodi
Ymddiriedolaeth Ernest Cook	Gwefan Ymddiriedolaeth Ernest Cook (Saesneg yn unig) 01285 713 273	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiectau sy'n addysgu pobl am yr amgylchedd gwledig a chefn gwlad.	Elusennau cofrestredig neu sefydliadau di-elw	£100 - £3,000 yn y categori grantiau bach Grantiau mwy rhwng £5,000 a £10,000
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo	Gwefan Adfywio'r Meysydd Glo (Saesneg yn unig) 01443 404 455	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwelliannau i ansawdd bywydau pobl yng Nghymunedau meysydd glo Prydain.	Sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a statudol	Bridging the Gap £500 - £10,000 Prif Raglen Grantiau £10,000 - £100,000
Ymddiriedolaeth Elusen Tesco	Gwefan Gorfforaethol Tesco (Saesneg yn unig)	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiectau yn y gymuned leol y mae eu gwaith craidd yn cefnogi lles plant, pobl hŷn a phobl ag anableddau.	Heb nodi	£1,500 - £2,000
Ymddiriedolaeth Elusennol Abbey	Gwefan Ymddiriedolaeth Elusennol Abbey (Saesneg yn unig)	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi cymunedau lleol a phobl dan anfantais gan roi blaenoriaethi dri maes: * Addysg a hyfforddiant	Elusennau wedi eu cofrestru yn y DU, neu elusennau eithriedig	£500 - £4,000

	0870 608 0104	* Cyngor ariannol * Adfywio cymunedol.		
Ymddiriedolaeth Elusennol Chapman	020 7782 0007	Mae’r Ymddiriedolaeth yn cefnogi dibenion elusennol cyffredinol; y prif feysydd yw gwasanaethau cymdeithasol, diwylliant a hamdden, addysg ac ymchwil, iechyd, yr amgylchedd a threftadaeth.	Elusennau cofrestredig	£500 - £1,000
Ymddiriedolaeth Elusennol Equitable	020 7320 6292	Mae’r Ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiectau addysg sydd o fudd i blant anabl neu blant dan anfantais.	Elusennau cofrestredig, ysgolion nas cynhelir gan AALl ac ysgolion gwirfoddol nas cynhelir gan yr AALl	Heb nodi
Ymddiriedolaeth Elusennol J Paul Getty Jr.	Gwefan Ymddiriedolaeth Elusennol J Paul Getty Jr (Saesneg yn unig) 020 7486 1859	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiectau sydd eisoes wedi eu sefydlu ac sy'n cael eu rheoli'n dda, prosiectau sy'n lleddfu tlodi ac yn helpu pobl i gyflawni eu potensial. Mae gwobrau a ddyfernir gan yr Ymddiriedolaeth yn disgyn i bedwar prif faes o fudd: Lles Cymdeithasol, y Celfyddydau, Treftadaeth a Chadwraeth a'r Amgylchedd Naturiol.	Prosiectau bach, lleol yn y gymuned	£5,000 - £15,000
Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott	Gwefan Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott (Saesneg yn unig	Mae’r Ymddiriedolaeth yn cefnogi’r meysydd canlynol * Rheoli poblogaeth * Yr amgylchedd naturiol * Addysg * Iechyd.	Elusennau cofrestredig neu sefydliadau a chanddynt gyfansoddiad priodol	£2,000 - £10,000

Ymddiriedolaeth Elusennol Trusthouse	Gwefan Ymddiriedolaeth Elusennol Trusthouse (Saesneg yn unig) 020 7264 4990	Mae'r Sefydliad yn cefnogi prosiectau sy'n dod o fewn un o'i dri maes blaenoriaeth: gofal iechyd ac anabledd, cymorth ac addysg yn y gymuned a'r celfyddydau.	Elusennau cofrestredig a sefydliadau di-elw.	Grant cyfartalog sydd ar gael - £5,000 Grantiau ychwanegol yn amrywio rhwng £1,000 a £30,000
Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp	Gwefan Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp (Saesneg yn unig) 01484 683403	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi elusennau bach i gynnal eu gwaith presennol gyda: * phobl hŷn * plant a phobl ifanc 5 - 25 oed * pobl ag anableddau neu broblemau iechyd meddwl * pobl sy'n ceisio goresgyn problemau cymdeithasol sy'n cyfyngu ar eu bywydau.	Grantiau bach elusennau cofrestredig, ar gyfer costau rhedeg a chyflogau, i elusennau cofrestredig bach yng Nghymru a Lloegr i helpu i gynnal eu gwaith presennol. Mae'n ariannu prosiectau sydd eisoes ar waith.	Hyd at £3,000
Ymddiriedolaeth Noel Buxton	Gwefan Ymddiriedolaeth Noel Buxton (Saesneg yn unig)	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi: * plant mewn teuluoedd difreintiedig a phlant sy'n derbyn gofal * lles carcharorion a'u teuluoedd, adsefydlu carcharorion * gwaith gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.	Elusennau cofrestredig	Hyd at £4,000
Ymddiriedolaeth Rainford	01744 20574 William Hadfield Simm William Hadfield Simm	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi * gwella ansawdd bywyd cymunedau a darparu mathau	Sefydliadau elusennol a gwirfoddol	Yn amrywio rhwng £500 a £10,000

	C/o Pilkington PLC Prescot Road St Helens Glannau Mersi WA10 3TT	newydd o gyflogaeth *rhaglenni sy'n anelu at ddarparu gofal meddygol, addysg a gwelliannau amgylcheddol.		
Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm	Gwefan Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm 029 20494963	Nod yr Ymddiriedolaeth yw gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru gan dargedu pobl sy'n wynebu gwahaniaethu neu sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi pobl ifanc i ddysgu mwy am eu gwlad drwy raglenni cyfnewid ac mae wedi gwneud darpariaeth i gefnogi rhaglenni cyfnewid i ieuenctid sy'n dod o fewn categorïau ariannu canlynol yr Ymddiriedolaeth: · Chwaraeon · Y Celfyddydau · Yr Amgylchedd · Y Gymuned.	Bydd y gronfa yn rhoi grantiau bach i ariannu prosiectau a gweithgareddau sydd yn arwain yn uniongyrchol at bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol parhaus. Nod y gronfa yw helpu i ddileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag bod yn weithgar	Sefydliadau lleol hyd at £2,000 Sefydliadau rhanbarthol hyd at £10,000 Sefydliadau cenedlaethol hyd at £20,000
Ymddiriedolaeth Tudor	Gwefan Ymddiriedolaeth Tudor (Saesneg yn unig) 020 7727 8522	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ariannol pobl sydd ar ymylon cymdeithas a sefydliadau sy'n mynd i'r afael â'r anghenion hyn drwy fynd at wraidd yr hyn sy'n eu hachosi.	Prosiectau annibynnol a phrosiectau'r sector gwirfoddol	Dim uchafswm

Key	
	Yn cafnogi Maeth a Gweithgaredd Corfforol
	Yn Cefnogi Maeth
	Yn Cefnogi Gweithgaredd Corfforol
	Rhagor o Ddiddordeb